# Ysgol Uwchradd Bodedern

## Presenoldeb a Phrydlondeb

Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Bodedern yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer addysg eich plentyn.

| | |
|---|---|
| **100%** | **Dim yn absennol o unrhyw wers** |
| **95% ac îs** | **Yn absennol am 10 diwrnod a mwy (dros 60 gwers) o'r ysgol- bydd yn anodd bod ar ben y gwaith.** |
| **93% ac îs** | **Yn absennol am 14 diwrnod ysgol a mwy. Colled addysgol difrifol sy'n debygol o effeithio'n negyddol ar gyflawniad eich plentyn.** |

Mae cysylltiad clir rhwng cyflawni'n dda yn yr ysgol a phresenoldeb da.

Mae gennym gamau pendant i ymateb i absenoldeb a chanmol presenoldeb uchel. **Ein targed i'ch plentyn yw presenoldeb llawn 100%.**

### Prydlondeb

Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau'n brydlon am 8.40yb. Mae bod yn hwyr 5 munud pob dydd yn gyfartal â cholli 3 diwrnod ysgol.

### Gwyliau

Mae ymchwil yn profi fod tynnu plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol yn medru bod yn niweidiol i'w haddysg, yn arbennig yn ystod cyfnodau pwysig o gwblhau gwaith cwrs a pharatoi ar gyfer arholiadau allanol / profion. **Dylid gwneud ceisiadau am wyliau drwy ffurflen gan y Pennaeth.**

Yn unol â pholisi'r sir, ni fydd absenoldebau gwyliau yn cael eu hawdurdodi i flynyddoedd 10 ac 11.

### Salwch

Ni chaniateir mwy na 10 sesiwn (5 diwrnod) o absenoldeb oherwydd salwch heb dystiolaeth meddygol (llythyr doctor, cerdyn apwyntiad ayyb)

**Cyfrifoldeb rhieni/gwarcheidwaid:**

- Sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 8.35yb
- Trefnu apwyntiadau meddygol e.e. deintydd (sydd ddim yn argyfwng) ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau.
- Sicrhau fod eich plentyn yn deall pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb.
- Peidio trefnu gwyliau teuluol yn ystod tymor yr ysgol.
- Cysylltu â'r ysgol i egluro pob absenoldeb, drwy'r ffyrdd canlynol:


Ffôn: 01407 741000

Tecst: 01407 644002

e-bost: abs@bodedern.ynysmon.sch.uk


neu drwy nodyn yn y llyfr cyswllt.

**Diolch am eich cydweithrediad a chefnogaeth.**

# Ysgol Uwchradd Bodedern

## Attendance and Punctuality

The staff and governors of Ysgol Uwchradd Bodedern are aware of the importance of attendance and punctuality for your child.

| | |
|---|---|
| **100%** | **Full attendance** |
| **95% and lower** | **Over 10 days of absences (over 60 lessons) from school - it will be very difficult to catch up with the learning.** |
| **93% and lower** | **Absent for over 14 school days, a substantial loss of education, which may have a detrimental effect on your child's achievement.** |

There is a clear connection between achievement and good attendance.

We have clear strategies in responding to absenteeism and praising high levels of attendance. Our target for your child is full attendance **100%**

### Punctuality

Our school day starts promptly at 8.40 a.m. Being 5 minutes late every day is equivalent to missing 3 school days.

### Holidays.

Research proves that removing children from school for family holidays can be detrimental to their education, especially during important periods of completing coursework and preparations for external exams and tests. **Any request for holiday leave should be made through a form available from the head teacher.**

Following the education authority's policy, we will not authorise holiday leave for year 10 and 11 pupils.

### Illness

We cannot authorise more than 10 sessions (5 days) of absences due to illness without medical evidence (a doctor's note or an appointment card etc)

**Parents'/Guardians' responsibilities:**

- Making sure that your child is in school by 8.35 a.m.
- Make non-emergency medical and dental appointments after school or during school holidays.
- Ensuring that your child understands the importance of attendance and punctuality.
- Avoid taking family holidays during school time.
- Contact the school to explain any absences, by using the following contact details:

Phone: 01407 741000

Text: 01407 644002

Email: abs@bodedern.ynysmon.sch.uk

or through a note in the communication book.

**Thank you for your continued co-operation and support.**